Newidiadau i Ganolfannau Gwastraff ac Ailgylchu

O'r 3ydd o Fehefin 2019

Pan fyddwch chi'n ymweld â'r Canolfannau Gwastraff ac Ailgylchu (CGA):

Bydd popeth y byddwch yn eu cludo mewn bagiau i'r CGA yn cael eu hagor i'n tîm gael edrych ynddynt i ddangos nad ydyn nhw'n cynnwys ailgylchu cyn y gellir eu rhoi yn y sgip gwastraff cyffredinol. Gallwch wneud eich ymweliad yn haws trwy ddidoli deunyddiau y gellir eu hailgylchu a'r rhai na ellir eu hailgylchu gartref fel y gallwch roi'r eitemau yn y cynwysyddion cywir.

Dim ond eitemau na ellir eu hailgylchu sy'n cael mynd i'r sgip gwastraff cyffredinol.

Gellir ailgylchu'r eitemau isod yn ein CGA felly cadwch nhw allan o'ch bag gwastraff cyffredinol:

cardfwrdd	papur	llyfrau	deunydd pacio plastig o'r cartref	batris ceir
hen olew injan	teiars	batris	nwyddau trydanol bach	nwyddau trydanol mawr
tiwbiau fflwroleuol	bylbiau ynni isel	etiau teledu a monitorau	poteli a jariau gwydr cymysg	gwastraff o'r ardd
tecstilau cy mysg a dillad	esgidiau	carpedi	matresi	cryno ddisgiau
paent	cartonau	dodrefn	olew coginio	poteli nwy
coed a phren	bwrdd plaster	rwbel a chraidd caled	metel sgrap	caniau bwyd a diod

Wyddoch chi fod dros 40% o'r gwastraff a gaiff ei daflu i'r cynhwysydd gwastraff cyffredinol yn ein CGA yn wastraff y gellid naill ai ei ailgylchu neu ei ailddefnyddio?

Mae angen i Gyngor Sir Benfro gynyddu'r hyn a ailgylchwn i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru. Os methwn â chyrraedd y targedau hyn, byddwn yn cael dirwy. Ar hyn o bryd, rydym yn ailgylchu 60% o'n gwastraff, ond mae angen i ni ailgylchu 64% erbyn y flwyddyn nesaf a 70% erbyn 2024/25. Bydd y gwelliannau hyn yn helpu i gwrdd â'r gofynion hynny ac yn gwella ein hamgylchedd.

01437 764551 **www.sir-benfro.gov.uk/newidgwastraff**

Cyngor Sir Penfro · Pembrokeshire County Council

Sir Benfro yn ailgylchu
Pembrokeshire recycles